Cofnodion cyfarfod 8fed o Dachwedd 2022 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Eifion Williams	Elenid Glyn	
Llŷr Evans	Emyr Gareth	
Meleri Jones	Dafydd Huws	
Eleri Wyn Thomas	Llŷr Evans	
Daniel Llywelyn Williams	Cynog Prys	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan yr Is-Gadeirydd Eifion Williams, derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Iwan Huws, Iestyn Harris a Nel Huws. Derbyniwyd ymddiswyddiad Karin Koehler	**CLERC**
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	**CLERC**
1.2	Adroddiad drafft 2023 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth- trafodwyd y mater a phenderfynwyd a'r polisi fydd yn cynnwys ; Talu £156 yn flynyddol i bob aelod, £52 yn flynyddol i bob aelod am draul o weithio o adref, ni fydd lwfans ar gyfer Cadeirydd na Ddirprwy Gadeirydd. Bydd costau teithio a chynhaliaeth yn cael ei dalu pan fydd aelodau yn cynrychioli'r Cyngor wedi penderfyniad cadarnhaol y Cyngor. Bydd costau gofal hefyd yn cael ei dalu. Bydd costau teithio a gofal yn cael eu talu yn y mis canlynol a'r ôl y digwyddiad a bod anfonebau wedi eu cyflwyno i'r clerc. Lwfansau'r aelodau a thaliad traul i'w talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.	**CLERC**
1.3	Penderfynwyd rhoi hawl i goeden gael ei phlannu er cof am blentyn. Er hynny roedd pryder gan y Cyngor ynglyn a sut roedd y goeden arbennig yma yn mynd i gael ei gwarchod. Yn y gorffennol mae coed sydd wedi eu plannu ar y Lôn Las wedi eu torri gan gontractwyr yn cynnal yr ardal ar ran Gyngor Gwynedd. Os byddai y teulu yn penderfynu dewis coeden ffrwyth yna byddai yn gallu chael eu phlannu yn y Berllen Gymunedol ac yna fyddai bodd rhoi fwy o warchodaeth i'r goeden arbennig. Y Clerc i anfon y wybodaeth ymlaen i'r ymgeiswyr.	**CLERC**
1.4	Trwydded gosod byrddau picnic ar y tir o flaen y Garddfon. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad ond byddai'r Cyngor Cymuned yn hoffi gweld amodau fel bod angen i'r gwair yn y r ardal gael ei dorri yn rheolaidd, bod gwydrau ar ddiwedd y dydd yn cael eu cludo a'r ddiwedd y dydd ac nad oedd dim gwydrau i'w rhoi ar gyfer yfed y tu allan ar ôl 10 yn y nos. Hefyd bod mynedfa i'r toiledau cyhoeddus yn glir bob amser.	**CLERC**
2.0	**DECLARATION OF INTEREST**	
	Cynghorydd Eifion Williams – eitem 5.1	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Hydref a'u derbyniwyd.	**EG CLERC**
3.2	Cyflwynwyd hefyd adroddiad cyllidebol 6 mis. Gofynnwyd rhai materion neilltuol ag ariannu'r Neuadd Goffa a phenderfynwyd y byddai'r mater yma yn cael ei drafod mewn	

	cyfarfod o'r Pwyllgor Y Neuadd ac yna adrodd yn ôl i'r Cyngor.	
3.3	Gofynwyd cwestiwyn hefyd pam ham roedd £12 mil wedi ei glustnodi ar gyfer costau a hyd yma dim ond oddeutu £1500 wedi ei ddefnyddio. Nid oedd y Clerc gyda'r manylion i lawr i rhoi elurhad, dywedodd y byddai yn anfon yr eglurhad ar ol y cyfarfod. Yr eglurhad oedd mai o'r gyllideb yma bydd ceisiadau am gymorth ariannol yn cael eu talu.	**CLERC**
3.4	Cyhoeddodd y Clerc bod ffi Scribe wedi cynyddu am eleni. Penderfynwyd i barhau a'r Rhaglen Cyfrifydda.	
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Hydref 2022 ar ôl fan newidiadau fel rhai cywir.	**CLERC**
4.2	Cae Chwarae Lan y Môr - cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r Cae Chwarae. Mae ymweliad safle ar ddiwedd yr wythnos gan gwmni sydd yn cynrychioli'r cwmni Kompan. Gobeithir bydd Y Cynghorydd Emyr Gareth, Cynghorydd Daniel Williams a'r Cynghorydd Eifion Williams yn gallu bod yn bresennol. Bydd canlyniad y cyfarfod yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cyngor.	**CLERC**
4.3	Wi-Fi – Y Cynghorydd Iwan Huws yn parhau i wneud ymholiadau.	
4.4	Bwyd Bendigedig - dywedodd y Clerc ei bod wedi cael eglurhad gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â gosod y bwrdd picnic yn y Cae Chwarae ar Lan y Môr. Er mwyn i Gyngor Gwynedd ei fabwysiadu bydd rhaid i'r bwrdd fod ar Sylfaen a bod llwybr yn rhedeg iddo er mwyn hwyluso'r bobl mewn cadair olwyn. Mae Cyngor Gwynedd angen cadarnhad lleoliad y bwrdd picnic. Gan fod y Cynghorydd Dan Williams wedi bod yn cysylltu â Bwyd Bendigedig ar y mater hwn bydd y Cynghorydd yn hwyluso'r drafodaeth gyda Chyngor Gwynedd. Y Clerc i Anfon yr ohebiaeth ar y mater ymlaen i'r Cynghorydd.	**CLERC DW**
4.5	Llwybr Hen Gei Llechi – mae gwaith o dorri y tyfiant wedi ei gadarnhau.	
4.6	Brwydr Moel y Don - bod y Clerc i anfon at Bennaeth yr Ysgol i wahodd yr Ysgol i weithio gyda'r Cyngor a'r prosiect i gofio Brwydr Moel y Don.	**CLERC**
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais: C22/0935/20/LL Lleoliad : Tŷ Gwydr Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RZ Bwriad: Isrannu annedd breswyl presennol i greu uned breswyl ychwanegol ar lefel islawr - - Penderfynwyd gwneud cais am wybodaeth bellach ynglŷn â'r mater o barcio yn y gwaelod, cael gwybod faint o ystafelloedd gwely oedd yn y datblygiad i gyd mewn cymhariaeth a nifer y safleoedd parcio yno. Y Clerc i anfon at y Gwasanaethau Cynllunio.	
5.2	Rhif Cais : C22/0990/20/LL Lleoliad: 15 Gwylan Uchaf, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4YJ Bwriad: Estyniad deulawr i ddarparu ystafell wely ychwanegol ac ymestyn y gegin. – SYLWADAU – Y Cyngor angen cadarnhad na fydd y	

	datblygiad yn effeithio'r Llwybr Cyhoeddus Allt Gam. Y Clerc I Anfon at y Gwasanaethau Cynllunio.	
5.3	Rhif Cais / Application No.: C22/0989/20/DT Lleoliad / Location: 8 Ffordd Heulyn, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QT Bwriad / Proposal: Codi balconi llawr cyntaf yn y cefn a ffenestr gromen o flaen yr annedd – Nid yw cyfeiriad y cais hwn o fewn ffin Cymuned y Felinheli , er hynny nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad.	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau.	
6.2	Penderfynwyd prynu gliniadur o ddewis y Clerc. Mae esiampl eisoes wedi ei roi i'r pwyllgor ac roeddynt yn fodlon ar y pris £599.	
7.0	**ASEDAU**	
7.1	Wedi derbyn adroddiad y Cynghorydd Llŷr Evans ynglŷn â'r bin compost penderfynwyd cael gwared â'r bin ond yn gyntaf rhoi cynnig y compost i Bwyd Bendigedig. Os na fyddai Bwyd Bendigedig yn gallu gwneud defnydd ohono yna'r Clerc i gael contractir i wneud i ffwrdd a'r compost a'r bin. Mae ffens yr ardal bori wedi torri a gofynnwyd i'r Cynghorydd Eifion Williams i gael Pris am y gwaith.	**CLERC**
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Y Cynghorydd Emyr Gareth yn parhau i weithio ar yr adroddiad blynyddol.	**EG**
8.2	Cafwyd adroddiad lafar bod wal gynnal rhwng Allt yr eglwys a'r safle bws ar Ffordd Gaernarfon i ymweld gyda bwa. Roedd sawl aelod o'r Cyngor yn bryderus am y sefyllfa oherwydd bod sawl lle arall gyda bwa a bod dwr yn arllwys rhwng y cerrig Y Clerc i anfon at Cygnor Gwynedd i ofyn am ymweliad safle brys ar y mater.	**CLERC**
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Mae tapiau newydd wedi eu gosod yn y toiledau a gobeithir cwblhau'r gwaith cynnal ar un o'r toiledau diwedd yr wythnos. Mae angen trwsio peipen ar un o'r wrinalau hefyd.	**DW**
9.2	Mae Ross Hughes yn ymwybodol o'r llawr ac wedi bod yn ymweld. Bydd yn dod yn ôl maes o lawr.	
9.3	Goleuadau y neuadd wedi eu cwblhau. Rydym bellach yn disgwyl pris am oleuadau LED yn lle'r halogens, nid yw y rhai sydd yno ar hyn o bryd yn gallu derbyn bylbiau LED ac felly bydd rhaid newid yr unedau i gyd.	
9.4	mae blodau o amgylch y cloc yn parhau i dyfu, mae ychydig o chwynnu wedi ei wneud gan Menter Fachwen. Mae gwaith cynnal o amgylch y cloc wedi ei wneud yn ddiweddar gan y Cynghorydd Llŷr Evans ac roedd gweithiwr Menter Fachwen wedi cyfeirio ar y gwaith da. Diolchwyd iddo am ei waith.	
9.5	Y CYnghorydd Eifion Williams yn gyfrifol am rheol;I'r traffig gogyfer cau'r ffordd dydd Sul I'r Gwasanaeth cofio.	
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
10.1	Mae'r giatiau ar gau ar hyn o bryd ar ol derbyn rhybudd. Mae'r system yn gweithio yn dda. Mae manylion y rhybuddion yn cael eu lledaenu drwy whatsapp ac yna mae	**DW**

	wardeiniaid yn geithredu y giatiau. Mae'r giat ar draws y ffordd yn cael ei gweithredu gan Gyngor Gwynedd. Bydd angen gwenud hyfforddiant blynyddol a'r wardeiniaid er mwyn cydymffurfio a yswiriant a.y.b. mae asesiad risg a dull gweithredu y Cyngor Sir angen eu hnewid es mwyn fod yn gyfredol a beth sydd yn digwydd. Mae modd i gynghorwyr a wardeiniad anfon adrodd problemau a gwlis ymlaen ar y Cyngor Sir gyda linc perthnasol. Y Cynghorydd Emyr Gareth i hysbysu'r aelodau o'r linc.	
	Cyfarfod mis Rhagfyr ar y nos Lun 12fed am 7 yn y Neuadd Goffa.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:15	
Llofnod:		**Dyddiad:**